| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **I'W GADARNHAU** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO – 2 MITRE PLACE, PWLLHELI, LL53 5HE** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH RHEOLEIDDIO** |

**CAIS A DDERBYNIWYD**

Atodir cais am drwydded eiddo newydd ar gyfer 2 Mitre Place, Pwllheli, LL53 5HE gan Fatih a Mary Yilmaz o 24 Awel y Môr, Pwllheli. Gwneir y cais mewn perthynas â darparu bwyd poeth fel lluniaeth hwyr y nos i'w fwyta ar, ac oddi ar yr eiddo.

Mae'r perchnogion wedi dal trwydded eiddo gyda Cyngor Gwynedd ers 2005 gyda'r siop prydau parod Pekish, sydd wedi leoli ar 78 Stryd Fawr, Pwllheli. Roedd trwydded eiddo gwerthu bwyd poeth yn arfer bod ar yr eiddo yn 2 Mitre Place yn y gorffennol, (sef siop prydau parod o'r enw Buffalo's), ac nid yw'r oriau a nodwyd ar y cais yn wahanol i beth oedd wedi nodi ar y drwydded yn y gorffennol.

Mae manylion yr hyn a ofynnir amdano o ran gweithgareddau trwyddedig ac oriau yn y tabl isod, yn ogystal ag yn yr atodiadau i'r adroddiad. Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig:

| **Oriau Agored** | | **Gweithgareddau Trwyddedadwy**<br><br>**Lluniaeth Hwyr y Nos** - Dan Do ac Awyr Agored | |
|---|---|---|---|
| Dydd Llun | 11:00-01:00 | Dydd Llun | 11:00-01:00 |
| Dydd Mawrth | 11:00-01:00 | Dydd Mawrth | 11:00-01:00 |
| Dydd Mercher | 11:00-01:00 | Dydd Mercher | 11:00-01:00 |
| Dydd Iau | 11:00-01:00 | Dydd Iau | 11:00-01:00 |
| Dydd Gwener | 11:00-02:00 | Dydd Gwener | 11:00-02:00 |
| Dydd Sadwrn | 11:00-02:00 | Dydd Sadwrn | 11:00-02:00 |
| Dydd Sul | 11:00-01:00 | Dydd Sul | 11:00-01:00 |
| Caniateir darparu lluniaeth hwyr y nos rhwng 23:00 - 02:00 ar nosweithiau Sul cyn dyddiau Llun gwyl y Banc. | | Caniateir darparu lluniaeth hwyr y nos rhwng 23:00 - 02:00 ar nosweithiau Sul cyn dyddiau Llun gwyl y Banc. | |

Oherwydd bod sylwadau sydd yn berthnasol i'r amcanion trwyddedu wedi ei wneud ar y cais; fe gyflwynir y cais er ystyriaeth yr Is - Bwyllgor hwn.

**Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu**

- Gweithredu system TCC (CCTV)
- Cyflogi goruchwylwyr drysau sydd wedi eu cofrestru gyda'r Awdurdod Diwydiant Diogelwch
- Goleuo digonol a diffoddwyr tân (diffoddwyr wedi nodi ar cynllun y llawr)
- Sicrhau nad oes sbwriel tu allan i'r eiddo
- Gwaredu a gwastraff ar adeg ystyriol

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

## YMGYNGHORIAD

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Heddlu Gogledd Cymru | E bost – dim gwrthwynebiad |
| Cyngor Tref | E bost – dim gwrthwynebiad |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru | E bost – dim gwrthwynebiad |
| Busnesau cyfagos | 2 lythyr o wrthwynebiad |

**Gwrthwynebiadau – Busnesau lleol**

Cafwyd 2 lythyr yn gwrthwynebu'r cais ar sail yr amcanion trwyddedu o:

- Atal niwsans cyhoeddus
- Atal trosedd ac anrhefn

Derbyniwyd y llythyrau gan ddau fusnes cyfagos sydd yn mynegi eu pryderon am ymddygiad gwrthgymdeithasol potensial y cwsmeriaid. Maent yn pryderu am faterion niwsans cyhoeddus megis materion glanweithiol, ysbwriel a sŵn. Maent hefyd yn poeni nad oes adnodd ddigonol gan yr Heddlu i blismona'r ardal, a bydd cynnydd mewn trosedd ac anrhefn.

Gweler atodiad yr adroddiad am fanylion llawn y llythyrau a dderbyniwyd.

## ARGYMHELLIAD

Argymhellir fod y cais yn cael ei gymeradwyo – oherwydd fod y cais yn unol a'r hyn oedd mewn lle ar drwydded yr eiddo yn flaenorol. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.